

*Y sgrifen ar y  
tywod*

*Cadeirydd  
Cenedlaethol  
Newydd*

*Galw am 1000 o  
ofodau Cymraeg*

HAWL  
I FYW  
ADRA

# Y Senedd 2020-21

Y Senedd yw'r pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio holl waith Cymdeithas yr Iaith. Yn ystod y flwyddyn, cynhelir Senedd Ymgyrchoedd bedair gwaith, Senedd Ranbarthau deirgawith a Senedd Weinyddol deirgwaith. Mae croeso i aelodau'r Gymdeithas ddod i'r cyfarfodydd.

Cafodd y canlynol eu hethol yn y Cyfarfod Cyffredinol ym mis Tachwedd 2020:

## Cadeirydd Cenedlaethol

Mabli Sirlol  
mabli@cymdeithas.cymru

## Is-gadeirydd Ymgyrchoedd

Talulah Thomas  
talulah@cymdeithas.cymru

## Is-gadeirydd Cyfathrebu

Osian Rhys  
osian@cymdeithas.cymru

## Is-gadeirydd Gweinyddol

Mai Roberts  
mai@cymdeithas.cymru

## Trysorydd

Danny Grehan  
dannny@cymdeithas.cymru

## Swyddog Codi Arian

Bethan Ruth  
bethanruth@cymdeithas.cymru

## Swyddog Mentrau Masnachol

Mirain Owen  
mirain@cymdeithas.cymru

## Swyddog Adloniant

Elan Elidyr  
elan@cymdeithas.cymru

## Swyddog Aelodaeth

Elin Hywel  
elin@cymdeithas.cymru

## Swyddog y We

Eiri Angharad  
eiri@cymdeithas.cymru

## Golygydd y Tafod

Mared Llywelyn  
tafod@cymdeithas.cymru

## Swyddog Dylunio

Carwyn Hedd  
carwyn@cymdeithas.cymru

## Swyddog Dysgwyr

Nia Llywelyn  
nia.llywelyn@cymdeithas.cymru

## Swyddog Rhyngwladol

Joseff Gnagbo  
joseff@cymdeithas.cymru

## Cadeirydd Grŵp Addysg

Toni Schiavone  
toni@cymdeithas.cymru

## Cadeirydd Grŵp Cymunedau

Cynaliadwy  
Elin Hywel  
elin@cymdeithas.cymru

## Staff cyflogedig

sydd hefyd yn aelodau llawn o'r Senedd:

### Siôn Trewyn

Swyddog Cyfathrebu  
cyfathrebu@cymdeithas.cymru

### Carol Jenkins

Ysgrifennydd Cyffredinol  
post@cymdeithas.cymru

### Gwion Emyr

Swyddog Maes y Gogledd  
gogledd@cymdeithas.cymru

## Is-gadeirydd Grŵp Cymunedau Cynaliadwy

Jeff Smith  
jeff@cymdeithas.cymru

## Cadeirydd Grŵp Dyfodol Digidol

Elfed Wyn Jones  
elfed@cymdeithas.cymru

## Is-gadeirydd Grŵp Dyfodol Digidol

Leia Fee  
leia@cymdeithas.cymru

## Cadeirydd Grŵp Hawl i'r Gymraeg


Bethan Williams  
bethan@cymdeithas.cymru

## Is-gadeirydd Grŵp Hawl i'r Gymraeg

David Williams  
david@cymdeithas.cymru

## Cadeirydd yr Is-grŵp Iechyd

Gwerfyl Roberts  
gwerfyl@cymdeithas.cymru



# MABLI SIRIOL



## Gair o'r gadair

Braint oedd cael fy ethol fel cadeirydd newydd Cymdeithas yr Iaith yn ddiweddar. Dw i'n edrych ymlaen at gydweithio gyda'n holl aelodau i sicrhau llwyddiant ein hymgyrchoedd a'n gweledigaeth ar gyfer etholiad 2021, *Mwy na Miliwn: Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb*.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Bethan Ruth, sydd wedi bod yn gadeirydd rhagorol dros y flwyddyn ddiwethaf, blwyddyn sydd wedi bod yn eithriadol ac anodd mewn cymaint o ffyrdd. Er gwaethaf yr holl heriau, fe wnaeth Bethan addasu ac arwain gyda'r positifrwydd, y cadernid a'r

caredigrwydd sy'n nodweddiadol ohoni. Mae Bethan yn rhywun sy'n dod ag egni a chreadigrwydd i bopeth mae hi'n ei wneud, felly dw i'n falch ei bod hi am aros yn aelod o'r Senedd fel Swyddog Codi Arian.

Yn sicr dyw hi ddim wedi bod yn flwyddyn arferol, ac mae wedi bod yn heriol i'r Gymdeithas fel mudiad. Serch hynny, rydym wedi cyflawni nifer o bethau. Rydym wedi lansio dogfen weledigaeth gyffrous ar gyfer etholiadau'r Senedd; wedi ennill gwersi Cymraeg am ddim i geiswyr lloches a chasglu miloedd o lofnodion ar ddeiseb yn galw am weithredu ar yr argyfwng tai. Cawsom wythnos codi arian hynod lwyddiannus hefyd, sy'n dyst i'r ffaith bod pobl o gwmpas y wlad yn dal i gredu'n gryf yn ein gweledigaeth ac eisiau cyfrannu.

Fel cadeirydd, fy mlaenoriaeth i dros y flwyddyn nesaf fydd ymgychu dros weledigaeth *Mwy na Miliwn:*

*Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb.*

Mae hyn yn cynnwys deddf addysg Gymraeg i bawb, sefydlu 1000 o ofodau uniaith Gymraeg newydd a chreu menter iaith ddigidol. Yn ogystal, mae'n cynnwys gwersi Cymraeg am ddim i bawb, a sicrhau fod pawb yn gallu dysgu, yn enwedig grwpiau sy'n cael eu hallgáu o'r iaith, megis cymunedau croenliw, mudwyr a phobl ar incwm isel. Mae'r ddogfen hefyd

yn cynnig polisiâu sy'n mynd i'r afael â gwir achosion yr argyfwng tai a dirywiad yr iaith yn ein cymunedau, megis gosod cap ar ail gartrefi, rheoleiddio Air BnB a chyflwyno trethi ar dwristiaeth, ail dai ac elw landlordiaid.

Rhaid i ni fynd â'r weledigaeth hon i'r pleidiau, a mynnu gwell gan y Llywodraeth nesaf. Rhaid mynd â hi hefyd at holl gymunedau Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n teimlo nad yw'r iaith yn eu cynnwys nhw ar hyn o bryd. Os wnawn ni hynny, mi wnawn ni ennill.

Mae wedi bod yn hawdd digalonni am y dyfodol ar adegau eleni wrth i'r gwahanol fathau o argyfwng sy'n ein wynebu ni ddwysáu, a gweld gweithredoedd dosbarth gwleidyddol sydd ddim yn gallu ymateb i heriau mawr yr oes. Pan ddaw hi at ddyfodol y Gymraeg a'n cymunedau, mae'r uchelgais a'r gweithredoedd yn parhau i fod yn bitw.

Mae cred y Llywodraeth taw eiddo ar gyfer elw ydy tai, nid cartefi sy'n hawl i bawb, yn golygu nad ydynt wedi cymryd y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng tai. Mae cynghorau sir wedi ceisio cau ysgolion bach a gwledig ac wedi methu dro ar ôl tro i dyfu addysg Gymraeg. Ac mae aelodau'r Senedd wedi penderfynu nad oedd modd mabwysiadu enw

uniaith Gymraeg i brif sefydliad ein democratiaeth genedlaethol.

Fodd bynnag, dydy Cymdeithas yr Iaith erioed wedi disgwyl i arweinyddiaeth ddod gan wleidyddion – ond gennym ni ein hunain. Gwyddom nad yw newid yn dod fel rhodd gan y rhai mewn grym, ond fel rhywbeth mae'n rhaid i bobl ei fynnu. Ac er gwaethaf problemau'r flwyddyn hon, dw i'n gweld gobaith yn y ffrwydrad byd-eang o weithredu gan bobl gyffredin. O Black Lives Matter i fudiad pobl frodorol Bolifia a'r streic hinsawdd gan blant a phobl ifanc ar draws y byd. Yma yng Nghymru rydym wedi gweld adleisiau'r symudiadau hyn ynghyd â thwrf mewn cefnogaeth i annibyniaeth.

Rhaid cofio o hyd mai arwyddair y Gymdeithas yw ein bod ni'n gymdeithas o bobl sy'n gweithredu'n ddi-drais dros y Gymraeg a chymunedau Cymru, fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid. Rhaid i ni barhau i gydsefyll gyda'r mudiadau a'r achosion eraill hyn, a gweld yn glir sut maen nhw'n gysylltiedig â'n hachos ni. Rhaid dangos o hyd yr hyn sydd wir wrth wraidd y problemau rydyn ni'n eu hwynebu, sef system fydd yn rhoi elw uwchben anghenion ein cymunedau bob tro. Rhaid i ni hefyd chwarae ein rhan wrth sicrhau bod y mudiad dros annibyniaeth yn cofio taw cerbyd, nid

cyrchfan ydy annibyniaeth, ac na fydd Cymru rydd heb y Gymraeg.

I mi, sylfaen gobaith ar adegau fel hyn ydy'r sicrwydd sydd gen i fod modd i bobl gyffredin newid pob dim. Un o'r rhesymau mae gen i'r sicrwydd hynny yw'r Gymdeithas a'n hanes ni o ennill pethau nad oedd pobl yn meddwl oedd yn bosib dro ar ôl tro, a newid Cymru yn y broses. Felly dw i'n ffyddiog, os wnawn ni barhau i frwydro, i gydweithio ac i gredu, y gwnawn ni ennill eto.

**Llongyfarchiadau Mabli Siriol ar y Gadeiryddiaeth ar gyfer 2020-21. Hoffai'r Gymdeithas ddiolch hefyd i Bethan Ruth am ei holl waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym fel mudiad yn lwcus o gael unigolion ysbrydoledig sy'n cyfrannu cymaint at waith y Gymdeithas.**

### PWYSIG!


**Mae telerau aelodaeth y Gymdeithas yn newid!**

**Trowch i'r cefn i weld y manylion.**

*Yn boeth o'r wasg!*




£7.99



£7.99



£9.99



£12.99



£9.99

**Cefnogwch eich siop lyfrau leol**

*Am restr gyflawn, ewch i [yolfa.com](http://yolfa.com)*



**Llyfrau dros Gymru**

Gyda Chymru'n camu i mewn ac allan o gyfnodau clo, mae nifer fawr ohonom wedi ein cyfyngu i'n cartrefi. Ymddengys ar yr olwg gyntaf felly bod ein galwad ar Lywodraeth nesaf Cymru i greu mil o ofodau uniaith Gymraeg newydd yn un ryfedd – wedi'r cyfan, gellid dadlau nad oes pwrpas creu gofodau newydd os nad oes modd defnyddio'r gofodau hynny. A fyddai'n gwneud mwy o synnwyr felly i ganolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lwyfannau digidol?

Mae ateb deublyg i'r cwestiwn hwn. Yn gyntaf, mae'n bwysig pwysleisio nad oes angen dewis rhwng cynyddu nifer y gofodau ffisegol uniaith Gymraeg sy'n bodoli ar un llaw, a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar-lein ar y llaw arall: yn wir, mae'n hymgyrch ni i greu mil o ofodau uniaith Gymraeg newydd yn mynd law yn llaw â'n hymgyrch i greu Menter Ddigidol Gymraeg – sef corff newydd fyddai'n gyfrifol am greu a chomisiynu cynnwys a phrofiadau Cymraeg ar-lein. Byddai'r darlun ieithyddol yn anghyflawn heb y cyfuniad hwn o'r ddwy alwad.

Yn ail, fe ddylen ni edrych y tu hwnt i'r argyfwng iechyd presennol. Ar ryw bwynt yn y dyfodol (agos, gobeithio!), bydd modd i ni gymdeithasu gyda'n gilydd yn yr un gofodau heb beryglu ein hiechyd ein hunain ac iechyd cyhoeddus. Bydd y cyfnod hwn yn



## o ofodau uniaith Gymraeg newydd

gyfle gwych i ni ddal lan yn iawn gyda'n ffrindiau ac i gymunedau ddod yn ôl at ei gilydd unwaith yn rhagor. Mae'n baradocsaid bod cyfnodau o ymbellhau ac ynysu cymdeithasol wedi gwneud i ni wirioneddol werthfawrogi gwerth cymuned – fy ngobaith i yw y bydd yr ymdeimlad yma o gymuned nid yn unig yn parhau, ond yn cryfhau pan fydd yn ddiogel i ni rannu'r un gofodau ffisegol â'n gilydd unwaith yn rhagor.

Bydd cyfle i ofodau newydd agor a blodeuo. Bydd cyfle i rannu syniadau, sgwrsio a chwerthin gyda'n gilydd yn

yr un stafell, yn hytrach na thros sgrîn gyfrifiadur neu ffôn glyfar, ond oeraidd.

Ond drwy gyfrwng pa iaith y bydd y sgrysiau, y trafod a'r chwerthin yma'n digwydd? A oes digon o ofodau ar gael i sicrhau bod mwy a mwy o bobl yn cyfathrebu gyda'i gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg? A oes digon o gefnogaeth ar gael i'r sawl sydd naill ai eisiau dysgu neu ddatblygu eu hiaith ond sy'n methu gwneud hyn oherwydd rhwystrau strwythurol? Mae'n galwad ar lywodraeth nesaf Cymru i greu mil o ofodau uniaith Gymraeg newydd yn ceisio mynd i'r

afael â'r cwestiynau hyn, a gwneud yr iaith yn fwy gweladwy ac ehangu mynediad ati. Byddai'n rhoi cyfle gwych i ddysgwyr ymarfer eu hiaith mewn amryw o gyd-destunau gwahanol, lle bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru. A bydd yn gyfle gwych i bobl wireddu eu hawl i fyw eu bywydau yn Gymraeg.

Felly beth yn union yr ydym yn galw amdano?



Yn fras, credwn y dylai llywodraeth nesaf Cymru osod targed i greu mil o ofodau cyfrwng Cymraeg newydd – o glybiau chwaraeon i weithleoedd cyfrwng Cymraeg – o fewn y pum mlynedd nesaf.

Rhai o'r meysydd amlycaf ar gyfer creu gofodau uniaith yw'r cyd-destunau canlynol:

- cymunedau fel trefi a phentrefi lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, gan gynnwys, os oes penderfyniadau i adeiladau stadau tai newydd mawrion, sefydlu rhai newydd sbon

- clybiau chwaraeon Cymraeg a chanolfannau celfyddydol lle cynhelir y gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg

- symud ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg ar hyd y continwm ieithyddol i fod yn rhai cyfrwng Cymraeg

- gweithleoedd a chyrrff sy'n gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau yma yn ein dogfen *Mwy Na Miliwn: Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb* sydd ar gael i'w darllen ar ein gwefan.

Bydd angen i lywodraeth nesaf Cymru ddangos uchelgais dros y Gymraeg, a gydag ewyllys wleidyddol a pharodrwydd i wneud y gwaith caled yma, does dim rheswm pam na ellir gweithredu'r galwadau yma, a gwireddu'r hawl sydd gan bawb i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.



Llithfaen

## Y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol 2020-21

Sefydlwyd y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol yn 2018 i weithio tuag at ddatrys yr argyfwng yn y cyfryngau Cymreig. Gan alw am ddatganoli pob pŵer dros ddarlledu o Loegr i Gymru fel amcan canolog, mae'r Cyngor yn gweithio ar ddatblygu modelau cynaliadwy y gellir eu cyflawni'n

effeithiol. Wrth archwilio strwythurau a fyddai'n gweithio'n dda yng Nghymru ac i Gymru, mae hefyd yn astudio sawl model cyfryngau llwyddiannus yn rhyngwladol.



### Aelodaeth 2020-2021 Y Cyngor Cyfathrebu

Angharad Mair  
Barrie Jones  
Beti George  
Betsan Powys  
Bethan Jones Parry  
Euros Lewis  
Marc Webber  
Nia Ceidiog  
Owain Gwilym  
Rhisiart Arwel

### Ruth Ceri Jones LL.B.

*“Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf, a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf”*

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn Gymraeg, cysylltwch drwy ebost:

[ruthcjones25@aol.com](mailto:ruthcjones25@aol.com)

(Aelod o Gymdeithas Ysgrifenywyr Ewyllysiau)

# Galw am Becyn Ymwybyddiaeth Iaith

## Mared Llywelyn

Dros y misoedd diwethaf mae'r sgwrs ynglŷn ag ail gartrefi wedi poethi. Rydym i gyd yn ymwybodol bod y farchnad dai yn rhemp. Mae angen rhoi grymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru. Er bod hon yn broblem drwy Gymru gyfan, mae'n naturiol bod y broblem yn ddwysach yn ein cymunedau gwledig ac arfordirol gan bod cymaint yn awyddus i heidio yma i'w ddefnyddio fel parc chwarae.



Yn ôl ystadegau treth cyngor 2020, mae 4900 o ail gartrefi yng Ngwynedd – y nifer uchaf o'r holl siroedd. Cymharwch hynny ag 11 o ail gartrefi yng Nghasnewydd. Mae'n debyg bod mwy o ail gartrefi mewn un stâd ym Morfa Nefyn!



Mae Cyngor Tref Nefyn yn parhau i gynnal momentwm eu hymgyrch *Hawl i Fyw Adra* i achub a diogelu cymunedau at y dyfodol.

Ym mis Hydref, cefnogodd y cyngor gynnig gan y cynghorydd Rhys Tudur i gynhyrchu Pecyn Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfer darpar brynwyr tai, a gobeithio bydd yn cael cefnogaeth mentrau iaith ac yn y pen draw – Llywodraeth Cymru.

Bydd Cyngor Tref Nefyn hefyd yn galw ar y Llywodraeth i wneud ymgych o'r fath yn orfodol yn y dyfodol gan

sicrhau ymwybyddiaeth eang ymysg darpar brynwyr eu bod nhw mewn gwlad wahanol, un sydd â diwylliant, traddodiadau a iaith fyw.

Bydd cynnwys y pecyn yn cael ei amlygu wrth drafod gyda'r Mentrau Iaith, ond bydd yn cynnig darlun cyflawn o'r Gymraeg fel iaith fyw, yn ogystal â gwybodaeth am hanes, diwylliant a threftadaeth yr ardal.

Mae'r cynnig yn gam pwysig i osod cysail i gynghorau tref a phlwyfi, a chynghorau sir eraill. Y gobath yw gall y pecyn fod yn batrwm i'w ddilyn drwy Gymru gyfan.



## Mae'r telerau aelodaeth yn newid!

Yn dilyn penderfyniad y Cyfarfod Cyffredinol, bydd tâl aelodaeth Cymdeithas yr Iaith yn newid ar 1 Ionawr 2021. Dim ond dau gategori fydd wedyn:

- tâl aelodaeth llawn: isafswm o £2 y mis
- tâl aelodaeth gostyngol (e.e. disgyblion ysgol, myfyrwyr, y di-waith, pensïynwyr): isafswm o £1 y mis.

Mae llawer ohonoch eisoes yn talu mwy na'r isafsymiau hyn – diolch yn fawr i chi am hynny. Does dim angen i chi wneud dim byd os felly!

Os ydych wedi ymaelodi am y flwyddyn, neu wedi ymaelodi drwy'r wefan ac yn gwneud taliad misol gyda'ch cerdyn banc, does dim angen i chi wneud dim byd a bydd eich aelodaeth yn parhau. Pan fydd eich aelodaeth yn dod i ben, byddwn yn eich atgoffa bod angen adnewyddu eich aelodaeth a gallwch dalu'r telerau newydd wedyn.

Os ydych yn talu'ch aelodaeth drwy archeb banc sefydlog a bod eich taliad presennol yn llai na'r lleiafswm misol newydd, gofynnir yn garedig i chi gysylltu â'ch banc i newid maint y taliad os gwelwch yn dda. Gwnewch yn siŵr hefyd bod eich rhif aelodaeth wedi'i nodi fel cyfeirnod y taliad (cysylltwch â'r swyddfa os nad ydych yn gwybod beth yw eich rhif aelodaeth).

Dydyn ni ddim am rwystro neb rhag dod yn aelod o'r Gymdeithas am resymau ariannol, felly os yw'r tâl aelodaeth yn broblem i chi, cofiwch gysylltu â'r swyddfa.

[post@cymdeithas.cymru](mailto:post@cymdeithas.cymru)

Celfwaith y clawr cefn: Osian Grifford  
'Cymunedau nid Cyfalafiaeth'

## Mae'r brif swyddfa'n symud!

Cyfeiriad newydd swyddfa Aberystwyth yw:

**Cymdeithas yr Iaith**  
Canolfan Merched y Wawr  
Stryd yr Efail  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 1JH

Yr un yw'r rhif ffôn a'r cyfeiriad e-bost.



[cymdeithas.cymru/siop](https://cymdeithas.cymru/siop)

- *Crysau-T*
- *Hwdis*
- *Sticeri*
- ...a llawer mwy



**AR WERTH**  
**For SALE**

